Cyngor Castell-nedd Port Talbot
Neath Port Talbot Council

# CRYNODEB GWEITHREDOL O ASESIAD DIGONOLRWYDD CYFLEOEDD CHWARAE (ADCCh) 2025-2028



MEHEFIN 2025

# TABL O'R CYNNWYS


1. DATGANIAD CRYNO GAN YR AWDURDOD LLEOL 01

2. METHODOLEG 07

3. SUT MAE YMGYSYLLTU Â PHLANT A THEULUOEDD WEDI LLYWIO'R ASESIAD DIGONOLRWYDD CYFLEOEDD CHWARAE 10

4. MWYAFU ADNODDAU 16

5. MONITRO 18

6. DIWEDDGLO 22

7. DADANSODDIAD O'R THEMÂU 27

ATODIAD - AELODAETH GRŴP GWEITHREDU DIGONOLRWYDD CYFLEOEDD CHWARAE CASTELL-NEDD PORT TALBOT 2025 37

# Datganiad yr Awdurdod Lleol

Mewn cydweithrediad â'n partneriaid, rydyn ni wedi ymrwymo i sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc sy'n byw yng Nghastell-nedd Port Talbot yn gallu cael mynediad at ddarpariaeth chwarae o safon sy'n **greadigol, yn gyffrous, ac yn ennyn diddordeb.** Rydyn ni'n credu bod rhaid i hygyrchedd cyfleoedd chwarae o safon uchel fod yn flaenoriaeth strategol i blant, pobl ifanc a theuluoedd sy'n byw ar draws holl ardal leol Castell-nedd Port Talbot – gan gynnwys yr ardaloedd trefol, arfordirol a gwledig.

Mae Cynllun Corfforaethol Castell-nedd Port Talbot 2024–2027, a gymeradwywyd gan yr awdurdod lleol ym mis Gorffennaf 2024, yn cyflwyno cyfeiriad strategol clir ar sail amcanion llesiant sydd i'w cyflawni erbyn 2027. Dau o'r amcanion hyn yw:

- bod pob plentyn yn cael y dechrau gorau mewn bywyd
- bod pob cymuned yn llewyrchus ac yn gynaliadwy

Mae'r cynllun hefyd yn cynnwys ymrwymiad penodol i'r canlynol:

*"Gwella cyfleusterau, a gwasanaethau chwarae a hamdden gwell i blant a phobl ifanc."*

Ar ben hynny, fel rhan o Gynllun Blynyddoedd Cynnar, Plant a Phobl Ifanc Castell-nedd Port Talbot 2024–2029, mae Cyngor Castell-nedd Port Talbot (CCNPT) wedi ymrwymo i weithio gyda phartneriaid i ddatblygu ystod amrywiol, safon uchel o chwarae, gweithgaredd corfforol, a chyfleoedd hamdden. Mae hyn yn cefnogi Deilliant Blaenoriaeth y cynllun: *"Bod pob plentyn a pherson ifanc yn cael eu cefnogi i fod yn gorfforol iach a theimlo'n gryf yn feddyliol ac yn emosiynol."*

Mae CCNPT a'i bartneriaid yn parhau i gydnabod pwysigrwydd Erthygl 31 o Gonfensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP), sy'n datgan *"bod gan bob plentyn*

*hawl i orffwys a hamdden, i fod yn rhan o weithgareddau hamdden a chwarae priodol i'w hoed, ac i gyfranogi'n rhydd mewn bywyd diwylliannol a'r celfyddydau."*

Deellir bod chwarae yn rhan hanfodol a phwysig o fywyd i blant, pobl ifanc a theuluoedd, gan ei fod yn *"rhoi cyfle i blant archwilio eu byd, darganfod pwy ydyn nhw, a meithrin cyfeillgarwch. Mae'n helpu plant i ddatblygu'r sgiliau mae arnyn nhw eu hangen ar gyfer bywyd, gan gynnwys cymdeithasu, datrys problemau, datblygu iaith, creadigrwydd, cyfathrebu, cyd-drafod a gwrando".*

Mae CCNPT a'i Grŵp Gweithredu ar Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae yn gwerthfawrogi beth gall chwarae ei wneud i blant a phobl ifanc – eu dysgu, eu haddysg a'u symudedd cymdeithasol. Ar y cyd â phartneriaid cyflwyno allweddol, maen nhw wedi ymrwymo i sicrhau bod holl blant a phobl ifanc Castell-nedd Port Talbot yn cael mynediad at gyfleoedd chwarae o safon uchel sy'n greadigol, yn creu cysylltiad, ac wedi'u teilwra at anghenion lleol.

Rydyn ni'n credu bod rhoi mynediad cyfartal i holl blant a phobl ifanc Castell-nedd Port Talbot i chwarae o ansawdd uchel yn helpu i liniaru effeithiau negyddol ac andwyol rhai profiadau plentyndod, gan gynnwys tlodi, a all godi ac esgaladu o ystod o ffactorau. Mae chwarae o safon yn cefnogi bywydau hapusach a mwy iach, ac yn rhan hanfodol o lesiant corfforol, meddyliol ac emosiynol plant.

Rydyn ni hefyd yn cydnabod bod chwarae yn golygu gwahanol bethau i wahanol blant. Mae'n cynnwys ystod eang o weithgareddau a chael rhyddid i ddewis **sut** a **ble** i chwarae. Er mwyn deall hynny'n iawn rydyn ni wedi ymrwymo i ymgysylltu'n rheolaidd â phlant a phobl ifanc er mwyn sicrhau bod y cyfleoedd chwarae rydyn ni'n eu darparu ac yn eu hariannu yn adlewyrchu eu hanghenion gwirioneddol a'r hyn maen nhw'n wir yn ei werthfawrogi.

Trwy weithio gyda phlant a phobl ifanc o amrywiol gefndiroedd ac amgylchiadau, rhieni, gofalwyr a rhanddeiliaid, mae Asesiad Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae 2025 wedi llwyddo i gyd-gynhyrchu Cynllun Gweithredu ar gyfer 2025-2028.

**Y naw cam gweithredu allweddol sy'n dod i'r amlwg yn sgîl yr ymchwil, yr ymgysylltu a'r ymgynghori hwn yw:**

## Cam Gweithredu 1 – thema Poblogaeth:

Parhau i ymgysylltu â phlant a phobl ifanc o gefndiroedd ac amgylchiadau penodol er mwyn deall eu hanghenion chwarae a'r rhwystrau sy'n atal mynediad i fannau chwarae a chlybiau sydd eisoes yn bodoli (gyda neu heb oruchwyliaeth), gan gynnwys plant sy'n derbyn gofal, plant ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), gofalwyr ifanc, pobl ifanc LHDTC+.

## Cam Gweithredu 2 – thema Poblogaeth:

Bydd CCNPT a Grŵp Gweithredu'r Strategaeth Chwarae (GGSCh) yn adolygu sut gallan nhw ymgysylltu ymhellach â theuluoedd er mwyn parhau i hysbysu plant a phobl ifanc a theuluoedd yn y ffordd fwyaf effeithiol am gyfleoedd chwarae, clybiau a gweithgareddau. Bydd yr adolygiad hwn yn llywio Cynllun Cyfathrebu ar thema Chwarae – a fydd, yn ei dro, yn ymgorffori cynllun i weithio ymhellach gydag ysgolion lleol.

## Cam Gweithredu 3 – thema Ble mae Plant yn Chwarae:

Gweithio gyda'r rhai sy'n gyfrifol am fannau a lleoedd chwarae a/neu'n cyfrannu atyn nhw, er mwyn sefydlu canllaw safonol/arfer da sy'n ymdrechu i sicrhau cydbwysedd rhwng diogelwch a her, ac sy'n gosod pwys ar estheteg mannau chwarae, gan sicrhau eu bod yn lân, mewn cyflwr da ac yn ddeniadol.

## Cam Gweithredu 4 – thema Ble mae Plant yn Chwarae:

Sicrhau bod grant cyfalaf Cyfleoedd Chwarae Cymru Gyfan yn cael ei ddefnyddio i roi sylw i flaenoriaethau o'r Asesiad Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae mewn perthynas â mannau a lleoedd chwarae.

## Cam Gweithredu 5 – thema Ble mae Plant yn Chwarae:

Bydd Cyngor CNPT a Grŵp Gweithredu'r Strategaeth Chwarae (GGSCh) hefyd yn ceisio cryfhau ymdrechion i hybu manteision chwarae yn systematig a strategol yn ysgolion cynradd, uwchradd a chyfrwng Cymraeg CNPT- gan gynnwys cynghori ar unrhyw ffynonellau arian grant sydd ag amcan/meini prawf ar gyfer uwchraddio adnoddau chwarae mewnol ac awyr agored yn yr ysgol.

## Cam Gweithredu 6 – thema Darpariaeth â Goruchwyliaeth:

Bydd GGSCh yn parhau i weithio gyda Thîm Cefnogi Blynyddoedd Cynnar CNPT (sy'n gyfrifol am yr Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant) a'r Gwasanaeth Ieuenctid i roi sylw i fylchau thema chwarae a nodwyd trwy brosesau'r Asesiadau Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae a Gofal Plant.

## Cam Gweithredu 7 – thema Darpariaeth â Goruchwyliaeth:

Bydd GGSCh yn gweithio gyda fforymau a rhwydweithiau sydd eisoes yn bodoli – darparwyr gofal plant, Fforwm y Trydydd Sector, Rhwydwaith y Darparwyr Ieuenctid – i ddarparu a hyrwyddo ystod gynhwysfawr o gyfleoedd Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) ar gyfer gweithwyr chwarae yn yr ardal, gan gynnwys cyfleoedd sy'n cefnogi cyflwyno chwarae cynhwysol, hygyrch.

## Cam Gweithredu 8 – thema Darpariaeth â Goruchwyliaeth:

Sicrhau bod cyllid Gwaith Chwarae yn ystod y Gwyliau yn cael ei ddefnyddio i roi sylw i flaenoriaethau'r Asesiad Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae mewn perthynas â chanfyddiadau poblogaeth a chwarae â goruchwyliaeth, yn enwedig tlodi, chwarae mewn ardaloedd gwledig, a chwarae i blant ag ADY.

## Cam Gweithredu 9 – thema Polisi, ymgysylltu, eiriolaeth a gwybodaeth:

Codi proffil chwarae ar lefel strategol trwy sicrhau bod Swyddog Arweiniol yr Asesiad Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae yn mynychu cyfarfod Grŵp Blaenoriaeth 5 Cynllun Blynyddoedd Cynnar, Plant a Phobl Ifanc CNPT, y mae chwarae plant yn rhan o'i gylch gorchwyl. Mae'r grŵp yn adrodd i Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus CNPT trwy'r Grŵp Arweinyddiaeth Plant a Phobl Ifanc.

Dylanwadwyd ar y camau gweithredu hyn ⬆ gan y deilliannau hyn ⬇

**Yma cyflwynir 8 deilliant allweddol yr ymgynghoriad â 750 o blant a phobl ifanc (gweler y fethodoleg ar dudalen 7 isod):**

1. Mae pobl ifanc ar draws Castell-nedd Port Talbot yn galw'n gyson am well mynediad at weithgareddau tebyg i Glybiau Ieuenctid – yn enwedig plant 8-10 oed, sydd am gael clybiau oed-briodol wedi'u teilwra ar eu cyfer.
2. Mae dros hanner (51%) y plant 8-11 oed a thraean (34%) o'r bobl ifanc 12–19 oed yn dweud mai anaml, os o gwbl, y byddan nhw'n chwarae neu'n treulio amser gyda ffrindiau tu allan.
3. Mae mwy o bobl ifanc yn rhan ogleddol ardal Castell-nedd Port Talbot (h.y. Ardal Cyfle'r Cymoedd) yn dweud eu bod nhw ddim yn chwarae nag yn treulio amser tu allan o gymharu â rhannau eraill o'r ardal.
4. Mae'n well gan bobl ifanc glywed am gyfleoedd chwarae trwy TikTok, Instagram, a Facebook.

5. Mae plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn dweud drosodd a throsodd fod ‘cyrraedd gweithgareddau’ yn rhwystr wrth chwarae, yn enwedig os yw anghenion iechyd meddwl neu emosiynol yn golygu bod defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus yn anodd.
6. Mae llawer o fechgyn a merched am weld gwell cyfleusterau pêl-droed yn lleol, gan gynnwys pyst gôl oed-briodol, rhwydi, a meysydd chwarae wedi’u nodi.
7. Mae sglefrio yn boblogaidd, gyda llawer o bobl ifanc yn cefnogi mwy o barciau sglefrio a lle i sglefrio.
8. Dywedodd llawer o fechgyn a merched 12-19 oed eu bod yn hoffi treulio amser mewn cysgodfannau ieuenctid.

# Methodoleg

Datblygwyd dull gweithredu ar gyfer Asesiad Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae (ADCCh) 2025 ym mis Medi 2024, gan Swyddog Arweiniol Cyngor Castell-nedd Port Talbot ar gyfer chwarae, mewn partneriaeth â Place Group, ymgynghoriaeth sydd â phrofiad o Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant a Chyfleoedd Chwarae ledled Cymru. Dewiswyd Place Group trwy broses gaffael dryloyw.

## Prif Elfennau'r Fethodoleg

- Casglu data – meintiol ac ansoddol
- Asesu – mesur data yn erbyn y canllawiau a'r rheoliadau i bennu digonolrwydd
- Cynllunio Gweithredu – creu cynllun i roi sylw i unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth chwarae

Trwy weithio gyda Thîm Blynyddoedd Cynnar a Phartneriaethau Castell-nedd Port Talbot, darparwyd mewnbwn a chefnogaeth gan amrywiol dimau eraill o fewn y cyngor, oedd yn cynnwys:

- Y Gwasanaeth Ieuenctid
- Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol
- Y Tîm Polisi Cynllunio
- Y Gwasanaeth Lles Addysg
- Y Gwasanaeth Dysgwyr Bregus
- Yr Adran Diogelwch Ffyrdd
- Y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd
- Cyfathrebu a Marchnata.

Datblygwyd cynllun ymgynghori i lywio'r asesiad, oedd yn cynnwys:

- Rhaglen o grwpiau ffocws
- Ymgysylltu â darparwyr chwarae mewnol ac allanol a gweithwyr proffesiynol.

- Asesu digonolrwydd cyfleoedd chwarae yng Nghastell-nedd Port Talbot yn unol â'r canllawiau a'r rheoliadau, a chwblhau templed ADCCh Llywodraeth Cymru.
- Dadansoddiad SWOT a bylchau.
- Llunio casgliadau ac argymhellion ar sail gwaith maes yr asesiad, ymchwil ansoddol, ac ymchwil feintiol.
- Cyflwyno'r casgliadau a'r argymhellion i Grŵp Gweithredu'r Strategaeth Chwarae.
- Cynhyrchu adroddiad crynodol ar gyfer yr ADCCh – addas i'w gyhoeddi ar wefan yr Awdurdod Lleol.

## Gweithgareddau Ymgysylltu ac Ymgynghori

Trwy ddefnyddio dull partneriaeth, cynhaliwyd ymgynghoriad gan swyddogion Cyngor Castell-nedd Port Talbot (dan arweiniad y swyddog â chyfrifoldeb am Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae) ac aelodau tîm Place Group rhwng Rhagfyr 2024 a Ionawr 2025, ac roedd hynny'n cynnwys:

- Grwpiau ffocws gyda'r canlynol:
    - Disgyblion cynradd ac uwchradd
    - Plant mewn ardaloedd gwledig (e.e. Tai'r gwaith)
    - Ieuenctid LHDTC+
    - Pobl ifanc oedd yn ffoaduriaid a cheiswyr lloches
    - Teuluoedd o'r gymuned Rwmanaidd
    - Aelwydydd Cymraeg eu hiaith
    - Plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a'u teuluoedd – yn Ysgol Maes y Coed, Castell-nedd
    - Rhieni a gofalwyr

Hyd pob sesiwn grŵp ffocws oedd rhyw 60 munud, ac roedd yn cynnwys rhyw 8-15 o blant a phobl ifanc, gyda chymysgedd cytbwys o ran rhywedd. I gydnabod eu hamser ac yn unol â chanllawiau moeseg, cafodd pob cyfranogwr daleb 'diolch'.

- Tri arolwg ar-lein i blant a phobl ifanc:
  - 6–7 oed
  - 8–11 oed
  - 12–19 oed

Cafodd y rhain eu peilota yn Ysgol Gynradd Awel y Môr a'u dosbarthu trwy ysgolion, y Gwasanaeth Ieuenctid, grwpiau chwarae lleol, a thudalen Facebook y cyngor. Ymatebodd cyfanswm o 560 o blant a phobl ifanc.

- Casglwyd adborth ar fideo hefyd gan ddisgyblion cynradd, gyda 110 o fideos byr (10-90 eiliad yr un) yn mynegi eu barn am chwarae.
- Cynhaliwyd arolwg ar-lein ar wahân ar gyfer gweithwyr chwarae proffesiynol a darparwyr, a chasglwyd 32 o ymatebion i lywio'r blaenoriaethau strategol.

Cyfrannodd holl ganfyddiadau'r ymgyngoriadau hyn yn uniongyrchol i'r adroddiad ADCCh terfynol a Chynllun Gweithredu Asesiad Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae 2025, a ddatblygwyd gan Grŵp Gweithredu Strategaeth Chwarae Castell-nedd Port Talbot.

# Sut mae ymgysylltu â phlant a theuluoedd wedi llywio'r Asesiad Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae

Defnyddiwyd tri dull ymgynghori i gasglu adborth gan blant, pobl ifanc, a rhieni/gofalwyr ar draws yr ardal. Bu'r adborth hwn o gymorth i lunio Asesiad Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae 2025 mewn perthynas â'r naw mater strategol a nodwyd gan Lywodraeth Cymru – h.y.

- Mater A: Poblogaeth
- Mater B: Diwallu anghenion amrywiol
- Mater C: Y lle sydd ar gael i blant chwarae
    - Mannau agored
    - Mannau chwarae dynodedig yn yr awyr agored lle nad oes staff
    - Caeau chwarae
- Mater Ch: Darparu cyfleoedd i chwarae dan oruchwyliaeth
    - Darpariaeth gwaith chwarae
    - Gweithgareddau hamdden strwythuredig
- Mater D: Codi tâl am ddarpariaeth chwarae
- Mater Dd: Mynediad i'r canlynol
    - lle/darpariaeth
    - gwybodaeth; cyhoeddusrwydd; digwyddiadau
- Mater E: Sicrhau a datblygu'r gweithlu chwarae
- Mater F: Ymgysylltu â'r gymuned a'i chynnwys
- Mater Ff: Chwarae ym mhob polisi perthnasol ac agenda weithredu berthnasol.

Nododd y themâu a godwyd trwy ymgysylltu ac ymgynghori â phlant, pobl ifanc a rhieni/gofalwyr flaenoriaethau i Gyngor Castell-nedd Port Talbot a Grŵp Gweithredu'r Strategaeth Chwarae weithio arnynt yn ystod y cyfnod 2025-2028. Caiff y blaenoriaethau hyn eu cyfuno â materion megis:

- Teilwra chwarae i wahanol garfannau oed
- Hyrwyddo cyfleoedd chwarae yn y modd mwyaf effeithiol
- Parhau i sicrhau bod cyfleoedd chwarae yn gynhwysol a;
- Pharhau i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn teimlo'n ddiogel wrth chwarae.

Dyma rai o'r **penawdau adborth** y mae'n amlwg y gallai CCNPT a GGSCh roi blaenoriaeth iddyn nhw yn ystod y cyfnod 2025-2028:

- Archwilio dichonolrwydd peilota Clwb/Clybiau Ieuenctid pontio (o Flwyddyn Ysgol 6 i Flwyddyn Ysgol 7)
- Gwella sut caiff gwybodaeth am chwarae ei rhannu ar y platfformau cyfryngau cymdeithasol mae plant a phobl ifanc yn eu ffafrio
- Sicrhau bod plant a phobl ifanc ag ADY yn gallu mynd i weithgareddau'n hwylus, gan gynnwys rhoi sylw i anghenion trafnidiaeth penodol
- Sicrhau (i'r graddau mae hynny'n ymarferol yn ariannol) bod adnoddau a chyfarpar pêl-droed lleol yn oed-briodol
- Asesu dichonolrwydd Cysgodfannau Ieuenctid lleol, gan ystyried mannau sydd eisoes yn bodoli i bobl ifanc a chyfleoedd i chwarae yn yr awyr agored gerllaw.

Mae'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Chwarae a ddatblygwyd – a'r angen iddo ystyried y naw mater strategol allweddol – wedi cael ei lywio'n gyffredinol gan adborth plant a phobl ifanc a rhieni/gofalwyr – er enghraifft:

**Meddwl am wardiau Dwyrain Sandfields a Gorllewin Sandfields ym Mhort Talbot:** cynhaliwyd ymgynghoriad mewn ysgolion lleol (yn cynnwys Ysgol Gynradd Sandfields) gyda phlant a phobl ifanc a rhieni/cymunedau – oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r gymuned Rwmanaidd leol. Dangosodd

dadansoddiad o'r ymatebion i'r arolwg ar-lein a dargedwyd gyda phlant a phobl ifanc oedd yn byw yn yr ardal fod rhyw 30% o'r ymatebwyr yn byw mewn wardiau sy'n cyfrif am elfen gymharol uchel o anfantais gymdeithasol – gan gynnwys: (eto) Dwyrain Sandfields, Gorllewin Sandfields, Glyncorrwg a Blaengwynfi.

O ganlyniad, mae CCNPT o'r farn bod ein dealltwriaeth o anghenion chwarae plant a phobl ifanc o deuluoedd incwm isel yn gryfder parhaus, fel y mae ein hymrwymiad parhaus i ddiwallu eu hanghenion. Bu'r ymgynghoriad hefyd yn fodd i CCNPT a GGSCh ychwanegu at eu dealltwriaeth o'r heriau posibl i deuluoedd incwm isel a phlant a phobl ifanc o gefndir incwm is wrth gael mynediad i chwarae lle codir tâl.

Rhoddodd y plant a'r bobl ifanc hyn adborth hefyd am werth y parciau lleol a'r mannau gwyrdd, eu hygyrchedd a'u diogelwch. Amlygwyd enghreifftiau o barciau penodol (a enwyd) a mannau gwyrdd yr oedden nhw'n credu bod modd eu gwella – o ran diogelwch, cyfarpar oed-briodol ac estheteg. Roedd yn amlwg bod angen i ni: (a) parhau i fonitro cyflwr ac estheteg parciau lleol, traethau lleol – a mannau gwyrdd, gan gydnabod y ffaith, yn achos rhai plant a phobl ifanc sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig, mai dyma'r unig gyfle iddyn nhw chwarae, a (b) parhau i sicrhau bod hygyrchedd darpariaethau penodol yn cael ei hyrwyddo mor eang â phosibl.

**Meddwl am anghenion chwarae plant sy'n byw yn Ardal Cyfle Cymoedd De Cymru (sy'n cwmpasu Pontardawe yng Nghwm Tawe):** o ganlyniad i ymgysylltu ac ymgynghori â phlant a phobl ifanc a theuluoedd perthnasol daeth yn amlwg fod angen i'r gwaith parhaus ganolbwyntio ar: (a) cadw mannau gwyrdd lleol yn lân, mewn cyflwr da, ac yn ddeniadol ar gyfer chwarae

(b) cael hyd i ffyrdd o leihau costau i blant a phobl ifanc sy'n byw mewn ardaloedd gwledig, yn enwedig o ran trafnidiaeth gyhoeddus a gweithgareddau yng ngwyliau'r haf

(c) gwella'r goleuo mewn ardaloedd chwarae ac ar hyd llwybrau i helpu plant a phobl ifanc i deimlo'n ddiogel.

Cefnogwyd hyn ymhellach gan ymgynghoriad ychwanegol â gweithwyr chwarae proffesiynol a darparwyr chwarae yn gynnar yn 2025, a nodwyd thema trafnidiaeth mewn cymunedau gwledig ganddynt hwythau fel her barhaus – er enghraifft:

*"Mae trafnidiaeth yn broblem i'r cyfryw blant a phobl ifanc os nad oes cyfleoedd yn eu lleoliad penodol".*

*"Mae angen parhau i feddwl am drafnidiaeth mewn ardaloedd gwledig fel bod modd cyrraedd clybiau a chyfleusterau chwarae".*

Mae'r ymgysylltu hefyd wedi galluogi CCNPT a Grŵp Gweithredu'r Strategaeth Chwarae i ddatblygu bwriadau wedi'u targedu – h.y.:

- Parhau i gynyddu ymwybyddiaeth o'r ddarpariaeth chwarae sydd eisoes yn bodoli mewn cymunedau gwledig
- Parhau i ymgysylltu â chymunedau gwledig i gasglu adborth.

**Meddwl am ddeall a darparu ar gyfer anghenion chwarae plant a phobl ifanc sy'n siarad Cymraeg a'u teuluoedd:** ymatebodd rhyw 60 o blant a phobl ifanc oedd yn siarad Cymraeg ac yn ddwyieithog o ran y Gymraeg a'r Saesneg i'r tri arolwg ar-lein – a gafodd eu hyrwyddo gan CCNPT ddiwedd 2024 a dechrau 2025. Bu 10 arall yn rhan o sesiwn benodedig yng Nghlwb Ieuenctid Pontardawe, ym mis Ionawr 2025. Trwy'r lefel hon o ymgysylltiad roedd modd i CCNPT a'r Grŵp Gweithredu'r Strategaeth Chwarae sicrhau dealltwriaeth dda o unrhyw anghenion/fylchau penodol yng nghyswllt y Gymraeg. Roedd yr adborth yn cadarnhau bod y gwasanaethau presennol – yn enwedig y rhai sy'n cael eu cyflwyno gan y Gwasanaeth Ieuenctid, yn diwallu'r

prif ddisgwyliadau, megis yr angen am leoedd diogel i bobl ifanc 11-19 sy'n siarad Cymraeg dreulio amser gyda'i gilydd.

Nododd canlyniadau'r ymgysylltu a'r ymgynghori â phlant a phobl ifanc y ddwy flaenoriaeth ganlynol i CNPT a GGSCh weithio arnyn nhw yn ystod y cyfnod 2025-2028:

Daeth dwy flaenoriaeth glir i'r amlwg ar gyfer 2025–2028:

- Hyrwyddo gwybodaeth am chwarae yn Gymraeg trwy blatfformau cyfryngau cymdeithasol priodol
- Cefnogi gweithwyr chwarae i gael mynediad at hyfforddiant Cymraeg.

**Meddwl am anghenion chwarae plant a phobl ifanc ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY):** Mae CCNPT a GGSCh yn awyddus i gydweithio yn llunio prosiectau ar y cyd â gofalwyr plant a phobl ifanc sydd ag ADY, gan gynnwys trwy gynigion grant i ddatblygu mannau chwarae awyr agored mwy cynhwysol a hygyrch. Amlygodd ymgynghori â gweithwyr chwarae proffesiynol yn gynnar yn 2025 ADY hefyd fel maes allweddol ar gyfer gwelliant. Er enghraifft:

*"Mae'r ddarpariaeth ar gyfer chwarae i 'blant anabl' yn ddarniog".*

*"Gellid gwneud mwy i wella gwybodaeth staff am gefnogi chwarae plant a phobl ifanc sydd ag ADY cymhleth".*

*"Er bod parciau'n ceisio ychwanegu cyfarpar 'anabledd', gall plant ag ADY gael trafferth mawr mynd i'r mannau hynny oherwydd eu bod yn brysur a bod y cyfarpar yn cael ei ddefnyddio'n ormodol gan fechgyn yn eu harddegau".*

*"Mae gennym ni syniad ar gyfer trefniant cydweithio Ysgol Goedwig/Draeth, gyda dull gweithredu integreiddio synhwyraidd – byddai'n brosiect gwych i'w gefnogi".*

O ganlyniad, rydym wedi ymrwymo i gefnogi gwaith gyda phlant a phobl ifanc ag ADY, gan gynnwys rhai sydd ag anableddau corfforol, namau synhwyraidd, anghenion o ran Iechyd Meddwl, Emosiynol a Chymdeithasol, Anhwylderau Sbectrwm Awtistig (ASD) ac anawsterau cyfathrebu, iaith a lleferydd – trwy archwilio'r mathau o gyfleoedd chwarae sy'n werthfawr iddyn nhw a sicrhau bod

prosiectau sydd eisoes yn bodoli yn parhau'n gynhwysol. Bydd y gwaith hwn hefyd yn llywio cynigion posibl wedi'u targedu am arian grant.

**Meddwl am sicrhau dealltwriaeth o anghenion chwarae ceiswyr lloches a ffoaduriaid, a bod darpariaeth ar eu cyfer:** bu CCNPT yn ymgysylltu'n benodol â'r cyfryw blant a phobl ifanc ddiwedd 2024 a dechrau 2025, gan gynnwys rhai o: (a) Wcráin; (b) Syria; (c) Affganistan ac (ch) Iran. Bu rhyw 25 o blant a phobl ifanc 5–17 oed yn rhan o'r ymgysylltiad hwn. Dywedodd y rhan fwyaf eu bod yn mwynhau eu cyfleoedd chwarae—yn enwedig clybiau celf, gweithgareddau hunanamddiffyn, a mynediad i barciau a mannau gwyrdd. Roedd pêl-droed yn weithgaredd poblogaidd ymhlith merched a bechgyn, ond roedd rhai'n wynebu rhwystrau wrth ymuno â thimau lleol, gan gynnwys:

a) methu fforddio esgidiau addas
b) dim gwybodaeth gyswllt ar gyfer y gweithgaredd
c) diffyg trafnidiaeth, gan fod y rhieni'n methu gyrru.

Bydd ein cam gweithredu yn cynnwys mwy o waith rhwng swyddogion CCNPT a gweithwyr chwarae proffesiynol, partneriaid a darparwyr chwarae, er mwyn sicrhau bod dyheadau chwarae penodol ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn cael eu cyflawni.

**Meddwl am anghenion 'chwarae' Plant a Phobl Ifanc LHDTC+:** Mae Gwasanaethau Ieuenctid CCNPT yn darparu grŵp ieuenctid wedi'i dargedu ar gyfer pobl ifanc LHDT, sydd wedi'i leoli'n bennaf (trwy ddewis y bobl ifanc) yng Nghastell-nedd.

Ym mis Rhagfyr 2024, bu 18 o bobl ifanc LHDTC+ yn rhan o sesiwn ymgysylltu benodedig. Roedden nhw'n teimlo bod eu hanghenion yn cael eu diwallu i raddau helaeth—yn enwedig trwy gefnogaeth y Gwasanaeth Ieuenctid—ond codwyd dau bryder:

1. Mewn rhai achosion, mae angen i ysgolion uwchradd lleol a staff addysgu ddangos mwy o gefnogaeth i weithgareddau yn yr ysgol sydd wedi'u bwriadu ar gyfer disgyblion LHDTC+.

2. Efallai na fydd gan ddisgyblion LHDTC+ yn B7-B9 gymaint o hyder i ymuno â sesiynau ieuenctid wedi'u targedu.

Bydd CCNPT yn parhau i weithio gydag ysgolion uwchradd lleol er mwyn ymgysylltu'n well â disgyblion LHDTC+ - fel eu bod yn gallu cwrdd â disgyblion eraill tebyg a dysgu am weithgareddau.

# Mwyafu adnoddau

Yn gyntaf, mae'n bwysig tynnu sylw at y ffaith bod yr holl barciau awyr agored, mannau agored, a chlybiau'r Gwasanaeth Ieuenctid ar draws Castell-nedd Port Talbot ar gael i'w defnyddio'n ddi-dâl.

Ar ben hynny, mae Cyngor Castell-nedd Port Talbot:

a) yn meddu ar Reolwr Datblygu a Chyllido Prosiectau sy'n gallu helpu grwpiau cymunedol a darparwyr chwarae presennol i gyrchu cyllid/cyllidebau er mwyn cyflwyno prosiectau chwarae ac mae'n
b) cyfeirio darparwyr a gweithwyr chwarae proffesiynol at gyllid sydd ar gael gan amrywiaeth eang o ffynonellau sy'n rhoi grantiau.

Mae Gwasanaeth Gofalwyr Ifanc Castell-nedd Port Talbot yn parhau i gynnig cyfleoedd gwerthfawr i ofalwyr ifanc gael hoe o'u cyfrifoldebau gofalu, treulio amser gyda gofalwyr ifanc eraill, dysgu a chael hwyl. Mae cyllid Teuluoedd yn Gyntaf hefyd yn parhau i alluogi gwasanaethau ieuenctid i ddarparu cefnogaeth i ofalwyr ifanc.

Yn unol â meini prawf y grant, defnyddiwyd cyllid Prosiect Gwaith Chwarae Gwyliau Llywodraeth Cymru i gynyddu cyfleoedd chwarae i blant a phobl ifanc yn ystod gwyliau'r ysgol a darparu bwyd/byrbrydau iach.

Yn 2025/26, ariannwyd pum prosiect ar draws Castell-nedd Port Talbot, a gyflwynwyd mewn cydweithrediad â'r rhaglen Newyn Gwyliau i fwyafu eu cwmpas. Defnyddiwyd themâu oedd yn dod i'r amlwg o'r Asesiad Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae oedd yn cael ei ddatblygu i lywio'r blaenoriaethau ar gyfer defnyddio'r grant, a agorwyd er mwyn i gyrff trydydd sector fedru cyflwyno cais am gyllid.

Bydd ceisiadau a gymeradwyir yn cefnogi cyflwyno'r canlynol:

- Chwarae mewn wardiau gwledig
- Chwarae i blant ag anghenion dysgu ychwanegol
- Chwarae mewn ardaloedd difreintiedig

Mae grantiau gofal plant CCNPT, rhai cyfalaf a refeniw, hefyd yn cefnogi chwarae mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar a gofal plant.

Ers Asesiad Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae 2022, mae'r Cyngor wedi penodi Swyddog Arweiniol amser llawn ar gyfer Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae, gan adlewyrchu ei ymrwymiad i chwarae fel darpariaeth gymunedol. Y rôl hon sy'n arwain gweithgareddau GGSCh, ac mae wedi gwella'r rhwydweithio rhwng gweithwyr chwarae proffesiynol a darparwyr ers i'r swydd gael ei llenwi ym mis Tachwedd 2023.

Yn olaf, mae'r awdurdod lleol yn parhau i groesawu bodolaeth rhaglenni Llywodraeth Cymru sydd â ffocws ar thema chwarae neu elfen yn ymwneud â chwarae – a bydd yn parhau i gyflwyno mentrau o'r fath yn egnïol, gyda chefnogaeth y Swyddog Arweiniol Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae a GGSCh. Bydd rhaglenni o'r fath yn parhau i gynnwys Prosiect Gwyliau Playworks a'i rôl allweddol yn cyrraedd plant a phobl ifanc a theuluoedd a allai fod yn profi anfantais a heriau, yn ogystal â'r Rhaglen Dechrau'n Deg – lle bydd cydweithwyr blynyddoedd cynnar yn parhau i sicrhau bod y lleoedd gofal plant/cylch chwarae am ddim i blant 2-3 oed yn cael eu hyrwyddo'n dda ac yn hygyrch i deuluoedd perthnasol.

# Monitro

Yn awdurdod lleol Castell-nedd Port Talbot, Cyfarwyddiaeth Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes sydd â'r cyfrifoldeb strategol am chwarae. Arweinir y ddyletswydd hon gan Gyfarwyddwr Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes, ac mae'r swyddogion canlynol yn gyfrifol am gydlynu a gweithredu'r Asesiad Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae:

- Pennaeth Gwasanaeth y Blynyddoedd Cynnar, Cynhwysiant a Phartneriaethau
- Cydlynydd y Blynyddoedd Cynnar a Phartneriaethau
- Rheolwr y Bartneriaeth Meddwl am y Teulu / Think Family
- Swyddog Arweiniol Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae

Nod Cynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Castell-nedd Port Talbot 2023-28 yw 'sicrhau bod pob plentyn yn cael y dechrau gorau mewn bywyd'. Mae'r awdurdod lleol yn cyflawni rôl allweddol o ran cyflwyno newid yn y maes blaenoriaeth hwn, gan gynnwys camau gweithredu a monitro yng nghyswllt yr Asesiad Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae (ADCCh). Mae Pennaeth Gwasanaeth y Blynyddoedd Cynnar, Cynhwysiant a Phartneriaethau yn mynychu'r BGC ac yn adrodd ar y gwaith i roi sylw i gamau gweithredu'r ADCCh.

Ar hyn o bryd (haf 2025) nid oes cynrychiolydd o Grŵp Gweithredu Strategaeth Chwarae Castell-nedd Port Talbot (GGSCh) yn aelod o Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Morgannwg. Fodd bynnag, bydd GGSCh, yn ystod y cylch cynllunio sydd i ddod, yn ceisio cyfrannu at thema chwarae yn y fforwm hon, ochr yn ochr ag amcanion y Bwrdd, ac yn adolygu sut y gall gryfhau ei fewnbwn i'r fforwm hon.

GGSCh sy'n gyfrifol am sicrhau bod Cynllun Gweithredu Chwarae cylchol yn cael ei gyflwyno a'i fonitro – a bydd hynny'n wir yn achos fersiwn 2025-2028 o'r ddogfen honno.

Yn haf 2025, bydd GGSCh – fydd yn cael ei arwain a'i gydlynu gan y Swyddog Arweiniol Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae – yn cynnwys aelodau o wasanaethau allweddol Cyngor Castell-nedd Port Talbot, megis Addysg, yr Amgylchedd, Diogelwch Ffyrdd, a Gwasanaethau Ieuenctid, ynghyd â phartneriaid trydydd sector (gweler tudalen 38).

Cadeirydd GGSCh yw Rheolwr Tîm Plant a Theuluoedd yr awdurdod lleol – a'r dirprwy gadeirydd yw'r Swyddog Cyfranogiad ac Ymgysylltu.

Er mwyn cyflawni'r amcan o sicrhau cyfleoedd chwarae o safon uchel i bob cymuned ledled Castell-nedd Port Talbot, gwahoddir aelodau'r grŵp i wneud y canlynol:

- Sicrhau cefnogaeth lawn y cyrff sy'n eu cynnal o ran cyrchu digon o amser, sgiliau, gwybodaeth a chefnogaeth glercol ar gyfer cyfraniad angenrheidiol eu sefydliad/hadran
- Cynnwys yr holl sefydliadau / adrannau partner priodol yn y strategaeth chwarae
- Bod yn gymwys ac yn llawn egni i gyfrannu ar ran eu sefydliad/hadran.

Caiff ymgynghorwyr ychwanegol eu cyfethol yn ôl y galw i gefnogi a gwella gwaith y grŵp.

Mae GGSCh yn cwrdd bob chwarter, a threfnir unrhyw gyfarfodydd amgen angenrheidiol gan Swyddog Arweiniol Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae yn ôl y galw.

**O ran ei amcan ar y cyd** uchelgeisiau strategol parhaus GGSCh yw:

- Cefnogi gwaith yr Asesiad Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae
- Datblygu ac ymgymryd â'r Cynllun Gweithredu ar gyfer chwarae: helpu i sicrhau ffocws, blaenoriaethu a chydlynu gwasanaethau chwarae i blant a phobl ifanc
- Annog cynnwys chwarae mewn cynlluniau a pholisïau strategol eraill lleol

- Gweithio tuag at nodau llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

**Ymhellach, ei gyfrifoldebau ar y cyd yw:**

- Bod yn grŵp arweiniol wrth yrru Cynllun Gweithredu'r ADCCh yn ei flaen
- Cefnogi partneriaid i gyflawni'r blaenoriaethau lleol cysylltiedig â chwarae, fel y nodwyd yng Nghynllun Gweithredu'r ADCCh
- Cefnogi ac arloesi yng ngweithrediad lleol mentrau cenedlaethol mewn perthynas â chwarae
- Cydlynu ac ymwneud yn weithredol â'r Asesiad Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae tair blynedd
- Sicrhau bod cynnydd yn erbyn y Cynllun Gweithredu yn cael ei adrodd yn ôl i Grŵp Arweinyddiaeth Plant a Phobl Ifanc Castell-nedd Port Talbot
- Nodi prosiectau priodol er mwyn defnyddio cyllid grant cysylltiedig â chwarae sy'n deillio o Lywodraeth Cymru – a darparu gwybodaeth fonitro i Lywodraeth Cymru ynghylch hynny
- Sicrhau bod hawliau plant yn cael eu diwallu'n benodol yn unol ag erthygl 31 o CCUHP.

O ran atebolrwydd, mae GGSCh yn adrodd i dîm Arweinyddiaeth Uwch Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes, yn unol â phrosesau adrodd a monitro corfforaethol ehangach yr awdurdod lleol, Grŵp Arweinyddiaeth Plant a Phobl Ifanc Castell-nedd Port Talbot, dan gadeiryddiaeth Cyfarwyddwr Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes, Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Castell-nedd Port Talbot a Llywodraeth Cymru.

Bydd y cyfrifoldebau, yr atebolrwydd a'r amcanion uchod yn cael eu hadolygu yn ystod cylch ADCCh 2025-2028.

Mae GGSCh yn adolygu'r cylch gorchwyl uchod, pan fydd angen, gan gynnwys yn unol â newidiadau a datblygiadau polisi cenedlaethol. Yn haf 2025, mae modd nodi nifer o gryfderau a gwendidau – er enghraifft:

## Cryfderau

- Mae gan GGSCh gefnogaeth lawn y tîm arweinyddiaeth uwch yng Nghyfarwyddiaeth Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes Cyngor Castell-nedd Port Talbot – sy'n gyfrifol yn y pen draw am ddigonolrwydd cyfleoedd chwarae ar draws yr ardal leol
- Mae gan GGSCh Castell-nedd Port Talbot etifeddiaeth gref, gan ei fod wedi parhau'n weithredol o'r cychwyn cyntaf – ac mae'r aelodau'n ymwybodol o'i swyddogaeth a'u cyfrifoldebau
- Mae GGSCh yn cwrdd yn gyson – bob chwarter fel y cytunwyd – ac mae wedi'i rwymo gan ddogfen Cylch Gorchwyl gytunedig, sy'n cael ei hadolygu'n achlysurol, ac sydd â hyblygrwydd cynhenid o ran unrhyw ddatblygiadau ac arloesi mewn polisi cenedlaethol
- Daw aelodau GGSCh o wahanol sefydliadau a chyfarwyddiaethau'r awdurdod lleol, ac mae'n fodd i'r aelodau gwrdd a rhyngweithio mewn ffyrdd na fyddent o reidrwydd yn eu taro fel arall, nac yn ddichonadwy
- Teimlwn fod holl aelodau GGSCh yn teimlo eu bod yn gallu cyfrannu at swyddogaethau ac arferion arloesol y mae modd eu gwireddu trwy ei waith ar y cyd a'i amcanion.

## Gwendidau

- Yn naturiol mae gan gynrychiolwyr flaenoriaethau a therfynau amser amrywiol ar gyfer gwaith, a gall hynny – ar brydiau – effeithio ar eu penderfyniad (a'u gallu) i fynychu'r cyfarfodydd chwarterol a drefnwyd ar gyfer GGSCh
- Mae gan yr awdurdod lleol a'r rhanbarth amrywiol gynlluniau, strategaethau, a grwpiau gwaith/prosiect er mwyn cyflawni ei waith a'i gyfrifoldebau. Er bod cyfeiriadau at chwarae a'i fod yn cael ei gynnwys yn yr amrywiol strategaethau ac amcanion polisi – gellid sicrhau mwy o eglurder ynghylch swyddogaeth benodol GGSCh o ran cysylltu ac adrodd rhwng y grwpiau gwaith/prosiect.

# Diweddglo

Yn ein barn ni mae'r ymgysylltu a'r ymgynghori ar gyfer ADCCh a Chynllun Gweithredu 2025–2028 wedi helpu i bennu cyfeiriad clir ar gyfer y blynyddoedd sy'n dod. Mae plant, pobl ifanc, rhieni a gofalwyr yn amlwg yn deall ac yn mynegi'r mathau o weithgareddau chwarae a hamdden maen nhw'n eu gwerthfawrogi ac am i'r awdurodd lleol a GGSCh roi blaenoriaeth iddyn nhw. Roedd y blaenoriaethau amlwg, oedd yn cael eu hailadrodd yn gyson, yn cynnwys:

- yr angen am gynnal mannau chwarae awyr agored, meysydd chwarae a mannau gwyrdd rhagorol
- pwysigrwydd parhaus gweithgareddau chwaraeon yn ystod eu hamser rhydd/chwarae (i blant a phobl ifanc)
- yr angen parhaus am sicrhau bod chwarae a gweithgareddau'n hygyrch – i'r graddau mae hynny'n ymarferol bosib – i blant a phobl ifanc a theuluoedd o bob cefndir, cymuned ac amgylchiadau
- y ffaith bod disgwyl i boblogaeth Coridor yr Arfordir gynyddu oherwydd nifer y datblygiadau tai newydd
- yr angen am sicrhau bod blaenoriaeth yn cael ei rhoi hefyd i blant a phobl ifanc a theuluoedd sy'n byw yn ardal wledig Pontardawe yng Nghwm Tawe, sy'n rhan o  Ardal Cyfle Cymoedd De Cymru).

Dyma'r naw cam gweithredu allweddol arfaethedig sy'n deillio o'r gwaith ymchwil, ymgysylltu ac ymgynghori strwythuredig a wnaed i lywio datblygiad Asesiad Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae CNPT 2025:

## Cam Gweithredu 1 – thema Poblogaeth:

Parhau i ymgysylltu â phlant a phobl ifanc o gefndiroedd ac amgylchiadau penodol er mwyn deall eu hanghenion chwarae a'r rhwystrau sy'n atal mynediad i fannau chwarae a chlybiau sydd eisoes yn bodoli (gyda neu heb oruchwyliaeth), gan gynnwys plant sy'n derbyn gofal, plant ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), gofalwyr ifanc, pobl ifanc LHDTC+.

## Cam Gweithredu 2 – thema Poblogaeth:

Bydd CCNPT a Grŵp Gweithredu'r Strategaeth Chwarae (GGSCh) yn adolygu sut gallan nhw ymgysylltu ymhellach â theuluoedd er mwyn parhau i hysbysu plant a phobl ifanc a theuluoedd yn y ffordd fwyaf effeithiol am gyfleoedd chwarae, clybiau a gweithgareddau. Bydd yr adolygiad hwn yn llywio Cynllun Cyfathrebu ar thema Chwarae – a fydd, yn ei dro, yn ymgorffori cynllun i weithio ymhellach gydag ysgolion lleol.

## Cam Gweithredu 3 – thema Ble mae Plant yn Chwarae:

Gweithio gyda'r rhai sy'n gyfrifol am fannau a lleoedd chwarae a/neu'n cyfrannu atyn nhw, er mwyn sefydlu canllaw safonol/arfer da sy'n ymdrechu i sicrhau cydbwysedd rhwng diogelwch a her, ac sy'n gosod pwys ar estheteg mannau chwarae, gan sicrhau eu bod yn lân, mewn cyflwr da ac yn ddeniadol.

## Cam Gweithredu 4 – thema Ble mae Plant yn Chwarae:

Sicrhau bod grant cyfalaf Cyfleoedd Chwarae Cymru Gyfan yn cael ei ddefnyddio i roi sylw i flaenoriaethau o'r Asesiad Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae mewn perthynas â mannau a lleoedd chwarae.

## Cam Gweithredu 5 – thema Ble mae Plant yn Chwarae:

Bydd Cyngor CNPT a Grŵp Gweithredu'r Strategaeth Chwarae (GGSCh) hefyd yn ceisio cryfhau ymdrechion i hybu manteision chwarae yn systematig a strategol yn ysgolion cynradd, uwchradd a chyfrwng Cymraeg CNPT- gan gynnwys cynghori ar unrhyw ffynonellau arian grant sydd ag amcan/meini prawf ar gyfer uwchraddio adnoddau chwarae mewnol ac awyr agored yn yr ysgol.

## Cam Gweithredu 6 – thema Darpariaeth â Goruchwyliaeth:

Bydd GGSCh yn parhau i weithio gyda Thîm Cefnogi Blynyddoedd Cynnar CNPT (sy'n gyfrifol am yr Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant) a'r Gwasanaeth Ieuenctid i roi sylw i fylchau thema chwarae a nodwyd trwy brosesau'r Asesiadau Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae a Gofal Plant.

## Cam Gweithredu 7 – thema Darpariaeth â Goruchwyliaeth:

Bydd GGSCh yn gweithio gyda fforymau a rhwydweithiau sydd eisoes yn bodoli – darparwyr gofal plant, Fforwm y Trydydd Sector, Rhwydwaith y Darparwyr Ieuenctid – i ddarparu a hyrwyddo ystod gynhwysfawr o gyfleoedd Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) ar gyfer **gweithwyr chwarae yn yr ardal, gan gynnwys cyfleoedd sy'n cefnogi cyflwyno chwarae cynhwysol, hygyrch.**

### Cam Gweithredu 8 – thema Darpariaeth â Goruchwyliaeth:

Sicrhau bod cyllid Gwaith Chwarae yn ystod y Gwyliau yn cael ei ddefnyddio i roi sylw i flaenoriaethau'r Asesiad Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae mewn perthynas â chanfyddiadau poblogaeth a chwarae â goruchwyliaeth, yn enwedig tlodi, chwarae mewn ardaloedd gwledig, a chwarae i blant ag ADY.

### Cam Gweithredu 9 – thema Polisi, ymgysylltu, eiriolaeth a gwybodaeth:

Codi proffil chwarae ar lefel strategol trwy sicrhau bod Swyddog Arweiniol yr Asesiad Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae yn mynychu cyfarfod Grŵp Blaenoriaeth 5 Cynllun Blynyddoedd Cynnar, Plant a Phobl Ifanc CNPT, y mae chwarae plant yn rhan o'i gylch gorchwyl. Mae'r grŵp yn adrodd i Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus CNPT trwy'r Grŵp Arweinyddiaeth Plant a Phobl Ifanc.

Credwn fod modd cyflawni'r blaenoriaethau hyn, gan eu bod wedi'u datblygu'n ofalus i gyfateb i'n hadnoddau, ein capasiti, a'n huchelgais gyffredinol. Er mwyn sicrhau bod y blaenoriaethau hyn yn derbyn sylw, rydym o'r farn y bydd ymgysylltu ac ymgynghori parhaus yn hanfodol. Ein nod yw cryfhau'r 'pyrth' a ddefnyddir i gyrraedd plant, pobl ifanc a theuluoedd yn ystod Asesiad Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae 2025, ochr yn ochr ag ehangu cyfleoedd a phartneriaethau—yn enwedig trwy rwydweithiau cymunedol ac ysgolion lleol.

Rydym yn credu'n gryf bod cydgynhyrchu yn hanfodol wrth ymgysylltu ac wrth ddatblygu cyfleoedd chwarae newydd. Er mwyn sicrhau bod gwaith GGSCh yn adlewyrchu barn a phrofiadau presennol plant a phobl ifanc, byddwn ni'n cryfhau ein cydweithio â Chynghorau Ysgol a Chlybiau Ieuenctid.

Fel awdurdod lleol, rydym yn dal yn ymroddedig i roi sylw i'r meysydd blaenoriaeth a nodwyd yn Asesiad Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae 2025. Bydd y gwaith hwn yn cael ei symud ymlaen gan GGSCh, a fydd yn parhau i gydweithio

mewn partneriaeth er mwyn adolygu sut gellid symud pob un o'r naw cam gweithredu ymlaen yn fwyaf effeithiol, a pha aelodau sy'n gallu derbyn cyfrifoldebau allweddol.

Un elfen o'r cynnydd a'r gweithredu fydd parhau i 'weithio'n gydlynus' ar draws swyddogion yr awdurdod lleol, partneriaid allanol eraill ac aelodau o GGSCh, ac rydyn ni'n ymwybodol y bydd Cam Gweithredu 2 a'i uchelgais o gynhyrchu Cynllun Cyfathrebu ar thema Chwarae yn faes ffocws allweddol.

Yn dilyn Asesiad Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae 2025, mae CCNPT mewn sefyllfa gref i barhau â'r gwaith digonolrwydd cyfleoedd chwarae. Gyda GGSCh gweithredol a strwythur cefnogol, mae gan y Cyngor gynllun cynhwysfawr y mae modd gweithredu arno i'w gyflwyno yn ystod 2025-2028.

Mae Asesiad Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae 2025 yn gadael GGSCh gyda dealltwriaeth o'i swyddogaeth yn strwythur rhanbarthol Castell-nedd Port Talbot ac mewn sefyllfa well i fedru llywio a gweithredu cynlluniau a strategaethau perthnasol.

Gyda chydweithio parhaus a chynyddol ymhlith adrannau, gall Cynllun Gweithredu ADCCh helpu i alinio amrywiol flaenoriaethau er mwyn cyflawni deilliannau chwarae yn well.

# Dadansoddiad o'r Themâu

## Poblogaeth:

**Mater A:** Nifer y plant ym mhob ystod oed o fewn yr ardal dan sylw

**Mater B:** Anghenion plant o wahanol ddiwylliannau a chefndiroedd yn yr ardal dan sylw

**Mater D:** A godir tâl am ddarpariaeth chwarae a ble mae hynny'n digwydd

### Beth mae plant wedi'i ddweud wrthym:

Hysbyswyd **Thema Poblogaeth** i raddau sylweddol gan ddeilliannau'r ymgysylltu a'r ymgynghori â phlant a phobl ifanc. Wrth ystyried Materion A, B a D, rhoddodd plant a phobl ifanc 6-19 oed yr adborth perthnasol canlynol:

- Dywedodd plant a phobl ifanc ADY o bob oed wrthyn ni eu bod yn gwerthfawrogi'n arbennig eu mannau gwyrdd lleol a'u cyfarpar arbenigol mewn ardaloedd chwarae – fel y gwnaeth plant a phobl ifanc oedd yn byw mewn ardaloedd gwledig
- Amlygodd plant a phobl ifanc o ardaloedd gwledig droeon hefyd fod rhaid iddyn nhw ystyried costau a ffioedd, oherwydd bod costau trafnidiaeth yn ffactor roedd rhaid iddyn nhw a'u rhieni ei ystyried yn gyson
- Amlygodd plant a phobl ifanc 8-10 oed droeon y bydden nhw'n gwerthfawrogi mwy o weithgareddau 'tebyg i Glybiau Ieuenctid' – mewn lleoliad penodol, yr oedd eu brodyr a'u chwiorydd oed uwchradd yn mynd iddo
- Amlygodd plant a phobl ifanc oedd yn siarad Cymraeg bwysigrwydd sicrhau bod gweithgareddau chwarae yn cael eu hyrwyddo yn Gymraeg, yn ogystal ag yn Saesneg (gan gynnwys ar y cyfryngau cymdeithasol)
- Disgrifiodd nifer o ferched o gymunedau ethnig lleiafrifol Castell-nedd Port Talbot (a chymunedau ffydd penodol) y bydden nhw'n croesawu mwy o glybiau/weithgareddau dawnsio diwylliannol. Nododd merched hefyd droeon gymaint roedden nhw'n gwerthfawrogi lefel dda o olau mewn mannau chwarae ac ardaloedd awyr agored

- Canolbwyntiodd bechgyn o gymunedau ethnig lleiafrifol Castell-nedd Port Talbot dro ar ôl tro ar bêl-droed – gyda rhai'n awgrymu eu bod nhw ddim yn gwybod cymaint am glybiau lleol ag y bydden nhw'n hoffi – ac eraill (fel bechgyn o bob cefndir) yn ategu y byddai adnoddau pêl-droed lleol, megis caeau chwarae mynediad am ddim, pyst gôl a ffensys yn addas yn ddelfrydol
- Canolbwyntiodd ffoaduriaid a cheiswyr lloches – o bob rhywedd – hefyd droeon ar bêl-droed. Amlygodd y cyfryw blant a phobl ifanc droeon y bydden nhw'n hoffi ymuno â thîm lleol, ond roedden nhw wedi profi 'rhwystrau' oedd yn cynnwys:
  a) methu fforddio esgidiau addas
  b) bod yn ansicr â phwy dylen nhw gysylltu i gael gwybodaeth am ymuno â chlwb
  c) methu cyrraedd clybiau/hyfforddiant oherwydd bod eu rhiant/rhieni yn methu gyrru
- Roedd y plant a'r bobl ifanc LHDTC+ yr ymgynghorwyd â nhw, oedd yn tueddu i fod rhwng 11 ac 19 oed, o blaid dull ar thema 'clwb' o dreulio amser gydag eraill, ond roedden nhw o'r farn bod bylchau amlwg o ran y modd mwyaf effeithiol i gael mynediad i weithgareddau – h.y.
  a) Mewn rhai achosion roedd angen i ysgolion uwchradd lleol (a gweithwyr addysgu proffesiynol) – gytuno ymhellach ar weithgareddau yn yr ysgol i ddisgyblion LHDTC+
  b) Efallai na fydd gan ddisgyblion LHDTC+ ym mlynyddoedd 7-9 gymaint o hyder i ymuno â sesiynau pobl ifanc wedi'u targedu.

## Cryfderau

- Amlygwyd Gwasanaeth Ieuenctid Cyngor Castell-nedd Port Talbot droeon fel un oedd yn boblogaidd gyda phlant a phobl ifanc ac un roedden nhw'n ymddiried ynddo.
- Mae darpariaethau chwarae awyr agored newydd ac wedi'u huwchraddio yn parhau i gael eu datblygu gan CCNPT.
- GGSCh cryf ac ymroddedig sydd ag aelodau sy'n cynrychioli cefndiroedd ac amgylchiadau'r rhan fwyaf o blant a phobl ifanc Castell-nedd Port Talbot.
- GGSCh sydd wedi ymrwymo i esblygu fel fforwm sy'n ymgysylltu â phlant a phobl ifanc o bob oed, gan gynnwys arweiniad yr is-gadeirydd presennol, sef Swyddog Cyfranogiad ac Ymgysylltu'r Awdurdod Lleol.

## Gwendidau

- Mae GGSCh yn ymwybodol bod angen chwyddo'r ymgysylltiad â phlant a phobl ifanc o gefndiroedd ac amgylchiadau penodol – gan gynnwys: (a) Plant sy'n Derbyn Gofal; (b) Gofalwyr Ifanc a hefyd; (c) plant a phobl ifanc o Gymunedau Teithwyr lleol
- Nid oes darpariaeth chwarae ddynodedig o hyd ar unrhyw un o safleoedd sipsiwn a theithwyr y Cyngor.
- Yn ddelfrydol gallai ymgysylltiad GGSCh â'r sector ysgolion gael ei chwyddo – gan gynnwys mewn ardaloedd daearyddol a dargedir lle mae tystiolaeth o angen am (fath penodol o) weithgareddau chwarae.

## Cyfleoedd

- Bydd egni GGSCh a'i gwmpas cynyddol (trwy aelodaeth) yn helpu i liniaru rhwystrau i chwarae ymhellach, ac yn helpu i gyrraedd (a) Plant sy'n Derbyn Gofal; (b) Gofalwyr Ifanc a hefyd; (c) plant a phobl ifanc o gymunedau Teithwyr lleol.
- Mae modd datblygu ymhellach yr ymgysylltu a'r cydgynhyrchu a gyflawnwyd ar gyfer Asesiad Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae 2025 yn raddol ar hyd y cyfnod 2025-2028, gan gynnwys trwy'r sefydliadau porth a'r gweithwyr proffesiynol a fu'n cefnogi'r ymgysylltu a'r ymgynghori dan sylw.

- Bydd dadansoddi pellach ar y data meintiol ac ansoddol a gafwyd trwy gyfnod ymgynghori ac ymgysylltu Asesiad Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae 2025 yn llywio sut targedir strategaethau a darpariaethau chwarae.
- Gall y Gwasanaeth Ieuenctid ystyried dichonoldeb peilota Clybiau Ieuenctid pontio (o Flwyddyn Ysgol 6 i Flwyddyn Ysgol 7).
- Parhau i gynhyrchu dulliau ymgysylltu a dulliau gweithredu ar y cyd â phlant a phobl ifanc – gan gynnwys mewn partneriaeth ag ysgolion lleol perthnasol a'u Cynghorau Ysgol.

### Bygythiadau

- Bydd dichonoldeb ariannol mentrau newydd posibl yn cyfateb i lifoedd ariannu refeniw a chyfalaf sydd (eisoes) yn gyfyngedig.
- Chwarae'n cael ei wthio i'r cyrion, heb yr un proffil â gwasanaethau a gweithgareddau eraill sydd ar gael i blant a phobl ifanc a phlant a phobl ifanc ADY.

## Mannau lle mae plant yn chwarae:

**Mater C:** Y man lle gall plant chwarae, gan gynnwys man agored, ac unrhyw fan arall

**Mater Dd:** Mesurau traffig a ddefnyddir i hybu mynediad at chwarae

**Mater Ff:** I ba raddau mae polisïau cynllunio datblygu lleol ac addysg yn cymryd i ystyriaeth yr angen am wella cyfleoedd chwarae i blant

### Beth mae plant wedi'i ddweud wrthyn ni:

Llywiwyd **Thema Ble mae Plant yn Chwarae** i raddau helaeth gan ganlyniadau'r ymgynghori a'r ymgysylltu â phlant a phobl ifanc.

Wrth ystyried Materion C, Dd ac Ff, darparodd plant a phobl ifanc 6-19 oed yr adborth perthnasol canlynol:

- Gallai rhai mannau agored cyhoeddus gael eu gwella neu eu datblygu o ran bod yn well adnodd chwarae, gan gynnwys o ran uwchraddio canfyddedig i gyfarpar chwarae ac adnoddau – a'u hestheteg

- Gallai rhai parciau a mannau gwyrdd (yn eu barn nhw) fod yn fwy addas ar gyfer chwaraeon anffurfiol a gêmau pêl – yn enwedig mwynhau pêl-droed a reidio beiciau
- Roedd traffig yn goryrru yn thema oedd yn destun pryder i nifer ohonyn nhw – er enghraifft, dywedodd 35% o'r bobl ifanc 12-19 oed fod cerbydau'n goryrru yn destun pryder iddyn nhw wrth chwarae y tu allan
- Nododd rhai plant a phobl ifanc fod methiant i gyrraedd adref os nad oedden nhw'n dal bws ysgol yn eu rhwystro rhag mynd i weithgareddau/glybiau yn yr ysgol (ar ôl y gwersi)
- Mater oedd yn codi'n gyson i blant a phobl ifanc oedd yn ffoaduriaid ac yn geiswyr lloches oedd bod eu rhieni'n methu gyrru (yn y Deyrnas Unedig)
- Nid yw rhai ysgolion (ym mhrofiad/hyd eithaf gwybodaeth rhai plant a phobl ifanc) yn caniatáu mynediad i dir yr ysgol i chwarae – mewn modd y mae plant a phobl ifanc yn nodi y gallen nhw fod yn ei ffafrio.

## Cryfderau

- Mae gan CCNPT raglen diogelwch ffyrdd amlwg, bellgyrhaeddol sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc, mewn ysgolion – gan gynnwys Kerb Craft i blant 5-7 oed.
- Mae sawl ysgol yn darparu mynediad i'w tiroedd a'u caeau chwaraeon, lle bo modd.
- Ers yr Asesiad Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae blaenorol yn 2022, gosodwyd arwyddion *Dim Smygu* yn *holl* ardaloedd chwaraeon awyr agored a meysydd chwarae CCNPT.
- Mae CCNPT yn parhau i osod mannau croesi diogel mewn amrywiol fannau i wella diogelwch plant a phobl ifanc sy'n cerdded.
- Cafodd nifer o ysgolion CNPT eu llenwi ag egni a brwdfrydedd i gefnogi'r ymgynghori a'r ymgysylltu, ac mae hynny wedi llywio cynhyrchu ADCCh CNPT 2025.

### Gwendidau

- Yn haf 2025, nid yw arwyddion ‘Dim gêmau pêl’ – neu rai tebyg – wedi cael eu symud o’r holl fannau chwarae perthnasol.
- Byddai’r adnoddau chwarae awyr agored mewn ambell ysgol yn elwa o foderneiddio ac uwchraddio.
- Byddai’r adnoddau chwarae awyr agored mewn ambell fan chwarae o eiddo’r awdurdod lleol ac ambell faes chwarae mewn ysgol yn elwa o foderneiddio ac uwchraddio.
- Byddai sicrhau ôl-troed ehangach o fudd i’r Fenter Ysgolion Bro.

### Cyfleoedd

- Yn sgîl yr ymgysylltu a’r ymgynghori awgrymodd rhai plant a phobl ifanc y gallai fod mwy o ffocws ar y celfyddydau a gweithgareddau diwylliannol – sy’n gam ymarferol gan fod mwy a mwy o bartneriaethau ‘porth’ sydd â ffocws ar gelfyddydau cymunedol yn cael eu sefydlu gan aelodau o GGSCh.

### Bygythiadau

- Bygythiad hollbresennol toriadau neu brinder cyllid.

## Darpariaeth â goruchwyliaeth:

- **Mater Ch:** Darpariaeth chwarae â goruchwyliaeth
- **Mater E:** Hyfforddiant gwaith chwarae a datblygu’r gweithlu

### Beth mae plant wedi’i ddweud wrthyn ni:

Llywiwyd **Thema Darpariaeth Chwarae â goruchwyliaeth** i raddau sylweddol gan ganlyniadau’r ymgysylltu a’r ymgynghori â phlant a phobl ifanc.

Wrth ystyried Materion Ch ac E, darparodd plant a phobl ifanc 6-19 oed yr adborth perthnasol canlynol:

- Roedd thema chwaraeon â goruchwyliaeth yn cyfrif am y ffaith bod plant a phobl ifanc yn gyffredinol fodlon ar yr hyn oedd ar gael iddyn nhw – er bod bechgyn yn aml yn credu y byddai mwy o adnoddau pêl-droed a rygbi mynediad am ddim yn cael eu lleoli’n ddelfrydol mewn mannau agored a mannau gwyrdd. (Cafwyd adborth gan y ddwy ryw y bydden nhw’n croesawu

adnoddau megis pyst gôl a ffensys o amgylch ar gaeau glaswellt ac ar gyfer chwarae 5 bob ochr.)

- Pwysleisiodd bechgyn o gefndir ffoaduriaid / ceiswyr lloches a rhai o gymunedau ethnig lleiafrifol droeon pa mor bwysig oedd pêl-droed fel modd iddyn nhw chwarae, ac y bydden nhw'n croesawu gwybodaeth gyson ynghylch clybiau lleol oedd â goruchwyliaeth, ac eto, ffocws ar ddarpariaeth mynediad am ddim
- Roedd dawns yn weithgaredd oedd yn cael ei ffafrio droeon ymhlith nifer o'r merched a ymatebodd. Roedd y dymuniad hwn yn rhan o adborth merched oedd yn dilyn ffydd Islam a merched o gymunedau Dwyrain Ewrop
- Mae tystiolaeth bod rhai plant a phobl ifanc sy'n byw mewn rhannau gwledig o'r ardal yn gallu wynebu her wrth gyrraedd a mynychu Clybiau Ieuenctid â goruchwyliaeth sydd eisoes yn bodoli, yn enwedig oherwydd themâu trafnidiaeth (gyhoeddus).

### Cryfderau

- Mae Cynllun Llysgenhadon Ifanc CCNPT yn annog pobl ifanc i fod yn actif a dod yn arweinwyr trwy chwaraeon (â goruchwyliaeth).
- Cyflwynodd ymatebion cyffredinol plant a phobl ifanc, o bob cefndir, oed ac amgylchiadau, adborth cadarnhaol iawn am rôl Gwasanaeth Ieuenctid CNPT.

### Gwendidau

- Ni all CCNPT ond comisiynu a darparu'n ymarferol ystod o weithgareddau chwarae â goruchwyliaeth, cyfleoedd a chlybiau yn ôl ei adnoddau ariannol a'i flaenoriaethau.
- Ar hyn o bryd nid oes cynllun sicrhau ansawdd cydnabyddedig yn CNPT nac yn genedlaethol sy'n gysylltiedig â darpariaeth gwaith chwarae â goruchwyliaeth.
- Mae angen rhagor o waith i sicrhau bod cyfleoedd chwarae â goruchwyliaeth yn hygyrch i blant a phobl ifanc ag ADY.

### Cyfleoedd

- Gallai GGSCh roi blaenoriaeth – i'r graddau mae hynny'n ymarferol bosibl – i gamau gweithredu sy'n canolbwyntio ar yr adborth ynghylch gweithgareddau chwarae poblogaidd a'r rhai sy'n cael eu ffafrio, yn enwedig pêl-droed.
- Cafwyd adborth gan blant a phobl ifanc a'u rhieni fod platfformau cyfryngau cymdeithasol yn dod yn ffynonellau gwybodaeth mwyfwy poblogaidd – roedd hyn yn cynnwys  TikTok ac Instagram.

### Bygythiadau

- Nid yw galwedigaeth gwaith chwarae â goruchwyliaeth yn cael ei nodi'n benodol yn y ddogfen fyw CCNPT: Strategaeth Dyfodol Gwaith 2022-2027, a gallai hynny olygu bod chwarae fel gyrfa yn cael ei ddiystyru.
- Gall darpariaeth chwarae heb ei chofrestru – fel sector – fod yn ansefydlog iawn, ac mae'n bwysig bod swyddogion perthnasol CNPT yn ymwybodol o ddarparwyr newydd o'r fath.

## Synergedd Polisi, ymgysylltu, eiriolaeth a gwybodaeth:

- **Mater Dd**: Mesurau a ddefnyddir i hybu mynediad at chwarae, gan gynnwys darparu gwybodaeth, cyhoeddusrwydd a digwyddiadau
- **Mater E:** Cyfleoedd hyfforddi i'r gweithlu chwarae
- **Mater F:** Lefel ymgysylltiad a chyfranogiad y gymuned
- **Mater Ff:** I ba raddau mae polisïau eraill awdurdod lleol yn cymryd i ystyriaeth yr angen am wella cyfleoedd chwarae i blant

### Beth mae plant wedi'i ddweud wrthyn ni:

Llywiwyd **Thema Synergedd Polisi, Ymgysylltiad, Eiriolaeth a Gwybodaeth** i raddau sylweddol gan ganlyniadau'r ymgysylltu a'r ymgynghori â phlant a phobl ifanc.

Wrth ystyried Materion Dd, F ac Ff, darparodd plant a phobl ifanc 6-19 oed yr adborth perthnasol canlynol:

- Platfformau cyfryngau cymdeithasol oedd yn dod yn ffynonellau gwybodaeth iddyn nhw fwyfwy – yn arbennig TikTok ac Instagram. Ymatebion ychwanegol a welwyd sawl tro ynghylch y ffordd orau o hyrwyddo cyfleoedd chwarae a gweithgareddau, ym marn plant a phobl ifanc, oedd:
    - Cyhoeddiadau mewn gwasanaethau ysgol
    - Ap 'chwarae' Castell-nedd Port Talbot i'r ffôn
    - Taflenni tymhorol yn benodol ar gyfer bagiau ysgol
    - Negeseuon testun at rieni, gofalwyr a gwarcheidwaid.

## Cryfderau

- Mae ymwybyddiaeth gynyddol o rôl allweddol swyddog arweiniol Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae, ymhlith y gweithwyr proffesiynol perthnasol – a hynny ymhlith swyddogion eraill yr awdurdod lleol a gweithwyr proffesiynol lleol o'r sector cymunedol, gwirfoddol a statudol, ac mae hynny'n galluogi mwy o strategaeth a phrosiectau cydlynus/wedi integreiddio i blant a phobl ifanc.
- Mae'r awdurdod lleol yn ymgysylltu'n amlwg ac yn effeithiol â chyfryngau Castell-nedd Port Talbot a De Cymru i annog portreadau cadarnhaol o blant yn chwarae yn yr ardal leol.

## Gwendidau

- Mae angen rhagor o waith i hyrwyddo ymwybyddiaeth yn systematig – ymhlith gweithwyr chwarae proffesiynol, gweithwyr proffesiynol y blynyddoedd cynnar a gofal plant, a darpar weithwyr proffesiynol – ynghylch hygyrchedd cyrsiau hyfforddi a chymwysterau ar thema chwarae er mwyn sbarduno rhagor o gyfleoedd chwarae i blant a phobl ifanc.

## Cyfleoedd

- Mae gan GGSCh aelodaeth sydd gyda'i gilydd yn gallu sicrhau cynnydd pellach eto o ran system well, sydd â mwy o synergedd, ar gyfer ymgysylltu, eiriolaeth a gwybodaeth am chwarae, gan gynnwys gyda phlant a phobl ifanc.

- Mae gan GGSCh hefyd aelodaeth sydd gyda'i gilydd yn gallu sicrhau cynnydd pellach fyth o ran gwybodaeth am (fynediad at) hyfforddiant a chymwysterau sy'n hygyrch i weithwyr chwarae proffesiynol a'r sector(au) chwarae cofrestredig a heb gofrestriad.

## Bygythiadau

- Bydd dichonoldeb ariannol mentrau ymgysylltu, eiriolaeth a gwybodaeth newydd posibl yn cyfateb i lifoedd arian refeniw sydd (eisoes) yn gyfyngedig.
- 'Syrffed' ymgysylltu a'r posibilrwydd na fydd plant a phobl ifanc sy'n byw yng Nghastell-nedd Port Talbot yn gweld nac yn adnabod cynnydd.

# Atodiad – aelodaeth Grŵp Gweithredu Digonolrwydd Chwarae Castell-nedd Port Talbot 2025

- Cydlynydd Pobl Ifanc Egnïol
- Swyddog Cynorthwyol Datblygu Gofal Plant
- Swyddog Bioamrywiaeth
- Partner Busnes Cyfathrebu a Marchnata
- Cadeirydd LLAN
- Rheolwr y Tîm Plant a Theuluoedd
- Arweinydd Cymunedol Plant
- Cydlynydd y Blynyddoedd Cynnar a Phartneriaethau
- Swyddog Comisiynu
- Rheolwr y Prosiect Ysgolion Bro
- Rheolwr y Blynyddoedd Cynnar a Dechrau'n Deg
- Rheolwr y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd
- Arweinydd Gofal Plant Dechrau'n Deg
- Arweinydd Rhianta Dechrau'n Deg
- Swyddog Seilwaith Gwyrdd
- Swyddog Cyswllt Sipsiwn a Theithwyr
- Cynrychiolaeth o Interplay
- CGG Castell-nedd Port Talbot
- Rheolwr Gwasanaethau Cymdogaeth
- Swyddog Cyfranogiad ac Ymgysylltu
- Swyddog Perfformiad a Monitro
- Prif Swyddog Ieuenctid a Chymuned
- Prif Gynllunydd Polisi

- Rheolwr Rhaglenni a Chomisiynu
- Rheolwr Datblygu a Chyllido Prosiectau
- Swyddog Datblygu a Chyllido Prosiectau
- Swyddog Rhanbarthol Cyfamod y Lluoedd Arfog
- Uwch Swyddog Ymgysylltu a Pholisi
- Uwch Swyddog Diogelwch Ffyrdd
- Uwch Swyddog Ieuenctid a Chymuned
- Goruchwyliwr Gofal Strydoedd
- Rheolwr y Bartneriaeth Meddwl am y Teulu / Think Family
- Swyddog Cefnogi'r Bartneriaeth Meddwl am y Teulu / Think Family
- Swyddog y Strategaeth Drafnidiaeth.